Arian Ar Hyd Ein Hoes

Ar gyfer beth mae angen arian arnoch ar y funud?

Mae ein anghenion ariannol a'r hyn ydym ei eisiau yn newid trwy gydol ein bywyd. Darllenwch yr astudiaethau achos canlynol a thrafodwch sut y bydd pob un o bosib yn gwario ac yn cynilo eu harian.

Mae **Steff** yn14 oed ac yn byw gartref gyda'i rieni. Mae'n cael lwfans wythnosol am wneud swyddi o amgylch y tŷ. Mae'n hoffi mynd allan gyda'i ffrindiau, ond mae hefyd eisiau prynu set deledu ar gyfer ei ystafell.

Mae **Siân** yn 16 oed ac yn astudio'n galed ar gyfer ei arholiadau, felly does ganddi ddim llawer o amser i swydd rhan amser. A sut bynnag— mae ganddi gariad newydd erbyn hyn, felly pan nad yw'n astudio, mae am fod allan gydag ef.

Mae **Paul** yn 17 oed, a newydd adael yr ysgol, ond yr unig waith y gall ddod o hyd iddo yw gwaith rhan amser. Mae eisiau cael swydd llawn amser yn fuan. Mae'n dal i fyw gartref ac mae am gael dysgu gyrru.

Myfyriwr 18 oed yw **Hibah**. Symudodd yn ddiweddar allan o'i chartref ac mae'n rhentu fflat gyda dwy ffrind. Cymerodd fenthychiad ariannol ar gyfer myfyrwyr, ond nid yw hwn yn rhoi llawer o arian iddi. Mae'n chwilio am waith rhan amser, ond nid yw wedi llwyddo hyd yma. Mae llawer o ffrindiau Hibah yn gweithio'n llawn amser, ac yn mwynhau mynd allan yn ystod y min nos. Mae hyn yn gostus, ond nid yw am golli allan ar yr hwyl.

Mam sengl 23 oed yw **Maria**. Mae ganddi ddau blentyn ifanc. Mae'r cyngor yn talu am y tŷ lle mae'n byw ac mae'n derbyn budddaliadau. Nid yw'n gallu gweithio oherwydd bod gofalu am y ddau blentyn bach yn mynd â'i hamser i gyd.

Mae **Elen** yn ferch 32 mlwydd oed gyda swydd dda. Mae wedi prynu fflat smart iddi ei hun, mae'n gyrru sbortscar ac yn cael llawer o wyliau gyda ffrindiau. Mae'n gweithio'n hwyr gan amlaf, ond mae'n hoffi mynd i barïion ar y penwythnos. Does ganddi ddim plant.

Mae **Akash** yn 40 mlwydd oed, ac mae ei wraig ac yntau yn gweithio'n llawn amser. Maen nhw'n berchen tŷ, ac mae ganddyn nhw dri o blant— sydd yn yr ysgol. Cyflogant rywun i nôl y plant o'r ysgol .

Mae **Cos** yn 68 oed ac ymddeolodd 3 blynedd yn ôl. Nid oes ganddo lawer iawn o gynilion ac mae'n derbyn y Pensiwn Gwladol. Symudodd yn ddiweddar i fflat ar rent er mwyn bod yn nes at deulu ei ferch.

Gweithgaredd

Dewiswch un o'r bobl a ddisgrifir yn yr astudiaethau achos. Ysgrifennwch stori greadigol neu ddarn allan o ddyddiadur am ffordd o fyw y person hwn. Ystyriwch y canlynol:

- Faint allai'r person fod yn ei ennill a'i wario?
- Beth yw eu hanghenion neu eu heisiau posib?
- A allen nhw arbed arian i brynu'r pethau hyn?
- Pa broblemau ariannol allai fod ganddyn nhw?

Darparwyd gan Nationwide – ar gael ar www.NationwideEducation.co.uk